# Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llysoedd

# Adroddiad Blynyddol 2024/2025

## Cynnwys

***Cyflwyniad*** ........ 2
***Ail-frandio / Datblygu'r Panel ac Arweinyddiaeth*** ........ 2
***Trosolwg*** ........ 2
***Ffrydiau Gwaith Allweddol a Adolygwyd yn 2024-2025*** ........ 3
***Datblygiadau Allweddol i Wella Effeithlonrwydd*** ........ 5
***Effaith Gwaith Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys*** ........ 5
***Edrych ymlaen*** ........ 6

## *Cyflwyniad*

Mae'r Panel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys wedi bod yn allweddol wrth asesu a chraffu ar y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys (megis rhybuddion, datrysiadau cymunedol a gwarediadau adferol ieuenctid) gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol, sy'n rhoi adborth ar achosion unigol gyda'r nod o wella'r defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Er na all y panel newid canlyniad gwreiddiol achos, gallant ddarparu argymhellion i'r heddlu i hyrwyddo arferion gorau, nodi anghenion hyfforddi a dylanwadu ar newid polisi.

## *Ail-frandio / Datblygu'r Panel ac Arweinyddiaeth*

Out of Court Resolutions
Delivering justice with fair outcomes for victims, offenders & communities

Ym mis Mehefin 2024, yn dilyn canllawiau gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, penderfynodd y panel craffu ail-frandio o'r Panel Craffu ar Warediadau y tu Allan i'r Llysoedd i'r Panel Datrysiadau y Tu Allan i'r Llysoedd.

Nododd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu fod craffu ar warediadau y tu allan i'r llysoedd wedi bod yn derm cyffredinol a ddefnyddiwyd ers blynyddoedd lawer, ond nad oedd ganddo unrhyw hunaniaeth na pherchnogaeth wirioneddol. Felly, ar ôl ymgynghori â'r holl heddluoedd, penderfynwyd y byddai hyn yn newid i Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys.

Ym mis Chwefror 2024, ymddiswyddodd Mr David Evans YH fel cadeirydd y panel craffu yn dilyn ei ymddeoliad o'r ynadon. Dilynodd trafodaeth ynghylch addasrwydd ynadon i gadeirio unrhyw gyfarfodydd panel craffu gan y gallai hyn effeithio ar eu diduedddrwydd. Felly cytunwyd y byddai Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn cadeirio cyfarfodydd Panel Craffu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn y dyfodol o fis Mawrth 2024 ymlaen.


Ym mis Ionawr 2025 crëwyd strwythur llywodraethu newydd o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Mae cynrychiolydd panel datrysiadau y tu allan i'r llys bellach yn mynychu'r cyfarfod strategol ar gyfer datrysiad y tu allan i'r llys i roi adborth y panel ar achosion oedolion a ystyriwyd. Prif Arolygydd yr Adran Cyfiawnder Troseddol sy'n cadeirio'r cyfarfod ac mae strwythur tebyg yn cael ei ystyried ar gyfer achosion ieuenctid.


## *Trosolwg*

Yn ystod y cyfnod 2024/2025 mae'r panel wedi cyfarfod 4 gwaith ac wedi adolygu 32 achos oedolion a 24 achos ieuenctid. Y themâu a drafodwyd yn ystod y cyfnod hwn yw:

- Meddiant cyffuriau

- Troseddau ymosod a gwir niwed corfforol
- Troseddau casineb/menywod ac anghymesuredd
- Troseddau â chyllyll




O'r achosion a adolygwyd eleni, penderfynodd y panel fod **50% yn ddefnydd priodol** o'r datrysiad y tu allan i'r llys, bod **23% yn briodol gyda rhai amheuon**, bod **17% yn amhriodol** a methodd y panel â dod i gasgliad ar **10% o'r achosion**.

## *Ffrydiau Gwaith Allweddol a Adolygwyd yn 2024-2025*

### 1. Troseddau Cyffuriau – Mehefin 2024

Adolygodd y panel ddetholiad o naw achos ieuenctid a naw achos oedolion a oedd yn ymwneud naill ai â meddu ar gyffur(iau) neu'r bwriad i gyflenwi cyffuriau, a oedd wedi cael eu trin drwy ddatrysiad y tu allan i'r llys.

O'r 18 achos, ystyriwyd bod 7 yn ddefnydd derbyniol o'r datrysiad y tu allan i'r llys, 3 yn briodol ond roedd gan y panel rai amheuon, 6 yn amhriodol a methodd y panel â dod i gasgliad ar 2 o'r achosion.

Roedd y canfyddiadau/argymhellion allweddol o'r cyfarfod hwn yn cynnwys:

- Atgoffa swyddogion Heddlu Dyfed-Powys o'r polisi datrysiad y tu allan i'r llys a phryd mae'n briodol cyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys.
- Atgoffa swyddogion Heddlu Dyfed-Powys nad yw defnyddio gwarediadau cyfiawnder adferol ieuenctid yn briodol mewn amgylchiadau lle mae unigolyn ifanc wedi bod yn gysylltiedig â throseddau cyffuriau.

### 2. Troseddau Ymosod a Gwir Niwed Corfforol – Medi 2024

Adolygodd y panel ddetholiad o 9 achos ieuenctid a 9 achos oedolion yn ymwneud â'r drosedd ymosod neu wir niwed corfforol a oedd wedi cael eu trin drwy ddatrysiad y tu allan i'r llys.

O'r 18 achos a adolygwyd, penderfynodd y panel fod 8 yn ddefnydd priodol o'r datrysiad y tu allan i'r llys, bod 5 yn briodol ond roedd gan y panel rai amheuon, roedd 3 yn amhriodol a methodd y panel â dod i gasgliad ar 2 o'r achosion.

Roedd y canfyddiadau/argymhellion allweddol o'r cyfarfod hwn yn cynnwys:

- Atgoffa swyddogion Heddlu Dyfed-Powys o'r paramedrau sy'n ymwneud ag erlyniad a arweinir gan dystiolaeth.
- Atgoffa swyddogion Heddlu Dyfed-Powys i gynnwys eu rhesymeg wrth gyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys ac i egluro'r cyfiawnhad.

### 3. Troseddau Casineb/Menywod ac Anghymesuredd – Rhagfyr 2024

Adolygodd y panel 7 achos oedolion a 6 achos ieuenctid yn ymwneud â throseddau menywod/casineb ac anghymesuredd a oedd wedi cael eu trin drwy ddatrysiad y tu allan i'r llys.

Daeth y panel i'r casgliad, o'r 13 achos a adolygwyd, bod 4 yn ddefnydd priodol o ddatrysiad y tu allan i'r llys, 7 yn briodol gydag amheuon, a 2 yn amhriodol.

Ymhlith y prif ganfyddiadau/argymhellion a wnaed yn ystod y cyfarfod hwn roedd:

- Drwy gydol yr achosion oedolion, nododd y panel, lle nodwyd trosedd a waethygwyd gan hiliaeth, nad oedd awdurdodiad gan reng arolygydd neu uwch yn bresennol yn yr adroddiadau.
- Nododd y panel bryderon ar ôl sylwi bod cyhuddiadau am droseddau a oedd wedi'u gwaethygu gan hiliaeth yn cael eu gollwng yn hytrach na'u nodi fel rhai nad oedd angen cymryd camau pellach. Nododd y panel hefyd fod y cyhuddiadau'n cael eu gollwng o ganlyniad i'r sawl a ddrwgdybir yn gwadu'r honiad. Cytunodd y panel fod hwn yn rheswm annerbyniol i ollwng trosedd. Awgrymodd y panel fod angen hyfforddiant pellach i addysgu swyddogion ar sut i gofnodi trosedd sydd wedi'i waethygu gan hiliaeth.
- Roedd nifer o achosion a adolygwyd yn cynnwys rhai sylwadau amhriodol yn y cofnod digwyddiadau. Pwysleisiodd y panel bwysigrwydd sicrhau bod yr holl fanylion o fewn unrhyw adroddiad gan yr heddlu yn broffesiynol.
- Nododd y panel yr angen i atgoffa'r holl staff o bwysigrwydd glynu wrth y polisi datrysiad y tu allan i'r llys a sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol yn cael eu nodi a'u cynnwys yn yr adroddiadau.
- Nodwyd pryderon ynghylch y dull anghyson o gyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys ledled Dyfed Powys. Nododd y panel eu pryderon bod gwarediadau cyfiawnder adferol ieuenctid yn cael eu rhoi am droseddau difrifol megis troseddau a waethygwyd gan hiliaeth.


### 4. Troseddau â chyllyll – Mawrth 2025

Adolygodd y panel ddetholiad o 6 achos oedolion a 6 achos ieuenctid yn ymwneud â throsedd â chyllell a oedd wedi cael eu trin drwy ddatrysiad y tu allan i'r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas ag achosion yr ieuenctid.

Penderfynodd y panel, o'r 11 achos a adolygwyd, fod 7 yn ddefnydd priodol o'r datrysiad y tu allan i'r llys, 1 yn briodol gydag amheuon, 2 yn amhriodol a methodd y panel â dod i gasgliad ar 1 o'r achosion.

Roedd y canfyddiadau/argymhellion allweddol o'r cyfarfod hwn yn cynnwys:

- Mae'n destun pryder darllen bod pob achos ieuenctid wedi digwydd o fewn lleoliad ysgol. Er bod y panel wedi nodi'r gwaith rhagweithiol sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda'r timau troseddau ieuenctid a Heddlu Dyfed-Powys i ddatblygu protocol ar gyfer digwyddiadau cyllyll mewn ysgolion.
- Anghysondebau yn y ffordd y cyhoeddir datrysiad y tu allan i'r llys ledled Dyfed Powys.
- Yn achos 3, nododd y panel eu pryderon bod y cyhuddiad o arf ymosodol wedi'i ollwng a'i gyfuno â'r cyhuddiad o feddu ar gyffuriau pan ddylai fod wedi cael ei drin ar wahân.
- Nid oedd rhai o'r adroddiadau a ddarparwyd i'r panel yn glir ac roedd gwybodaeth bwysig ar goll.




*Rhywedd hunan-ddiffiniedig

## *Datblygiadau Allweddol i Wella Effeithlonrwydd*

- Fersiwn ddiwygiedig o'r cylch gorchwyl newydd.
- Sianel Teams newydd wedi'i datblygu.
- Sefydlu'r Bwrdd Strategol Datrysiadau y Tu Allan i'r Llysoedd newydd.
- Rhestr well o achosion sy'n cael eu dwyn gerbron y panel i'w hystyried.

## *Effaith Gwaith Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys*

O ganlyniad i waith Panel Craffu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys mae wedi arwain at:

- Nodi achos ieuenctid ar Niche i sicrhau bod unrhyw achosion yn y dyfodol yn cael eu dwyn gerbron y llys.

- Rhoi adborth unigol a meysydd i'w gwella i swyddogion a oedd yn ymwneud â'r achosion.
- Lledaenu neges a'i rhaeadru i swyddogion yn Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y defnydd amhriodol a nodwyd o warediadau cyfiawnder adferol ieuenctid.
- Anfon nodyn atgoffa at swyddogion Heddlu Dyfed-Powys ynghylch pwysigrwydd gweithio'n effeithiol gyda'r timau troseddau ieuenctid.
- Mae gwelliannau wedi'u gwneud o ran cael adroddiadau'r biwro ieuenctid.
- Darparwyd adborth i Heddlu Dyfed-Powys, drwy'r cyfarfod strategol newydd ar y pryderon isod:
    - Mae angen awdurdodiad arolygydd ar gyfer troseddau a waethygwyd gan hiliaeth.
    - Hyfforddiant ar sut i gofnodi a dadgofnodi troseddau a waethygwyd gan hiliaeth yn gywir.
    - Rhaid dilyn polisi a rhestr wirio datrysiad y tu allan i'r llys.
    - Sylwadau amhriodol yn cael eu cofnodi mewn adroddiadau.
    - Dull cyson o gyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys ledled Dyfed Powys.

## *Edrych ymlaen*

Bydd y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn parhau i asesu, rheoli a chraffu ar ansawdd y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys yn annibynnol, er mwyn gwella hyder y cyhoedd a darpariaeth gwasanaethau.